

Huw Irranca-Davies AS/MS  
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet  
dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig  
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for  
Climate Change and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/2483/25

4 Tachwedd 2025

Annwyl Lynda,

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i chi, y tro hwn am yr adroddiad "Diogelu Coed a Choetiroedd yng Nghymru". Mae edrych yn fanwl ar sut mae'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu ein trefn trwyddedau cwmpo coed, Gorchmynion Cadw Coed (TPOs) ac amddiffyniadau o fewn y system gynllunio yn gweithredu a sut y gellid ei wella yn cael ei groesawu'n fawr. Mae croeso arbennig i'r ffaith eich bod wedi gofyn am farn rhanddeiliaid a oedd wedi eistedd yn flaenorol ar y Panel Cynghori ar y Strategaeth Goetiroedd (WSAP). Mae ganddynt wybodaeth werthfawr i weithredu ein deddfwriaeth yn ymarferol ac felly ble y gellid gwneud gwelliannau i wella ei heffeithiolrwydd. A fydddech cystal â diolch i bawb sy'n cymryd rhan am eu mewnbwn, yn ogystal â'ch tîm, ddoe a heddiw, wrth greu'r adroddiad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r angen i ddiweddarau deddfwriaeth a chanllawiau i ddiogelu coed a'r manteision i'r ecosystemau y maent yn eu darparu, yn enwedig yng nghyd-destun gweithredu ein heconomi o ddydd i ddydd. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at bwysigrwydd gwerthfawrogi ein coed a'n coetir presennol, nid yn unig am eu gallu i gynhyrchu pren, ond hefyd am eu gwerth fel asedau amgylcheddol. Mae'r adroddiad yn dod ar amser da gan ein bod wedi cyflwyno Bil Cynllunio (Cymru) ac yn parhau i weithio ar adolygu'r rheoliadau sy'n ymwneud â Gorchmynion Diogelu Coed er mwyn gwella cysondeb ac eglurder yn y ffordd y caiff coed eu gwarchod ledled Cymru.

Rwyf wedi ystyried argymhellion yr adroddiad yn ofalus gyda'm swyddogion, ac mae ein hymateb i bob un o'r rhain wedi'u nodi yn Atodiad 1 i'r llythyr hwn. Mae rhywfaint o waith eisoes wedi'i wneud, megis cryfhau amddiffyniadau ar gyfer coed a choetiroedd o fewn Polisi Cynllunio Cymru. Mae diwygiadau hefyd wedi'u gwneud i ddeddfwriaeth goedwigaeth drwy Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 nad oedd mewn grym ar adeg yr ymgynghoriad gwreiddiol. Roedd hyn yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru fel rheoleiddiwr goedwigoedd, i gyflwyno amodau amgylcheddol mewn trwyddedau cwmpo coed, ac i ddiwygio'r trwyddedau hyn ar ôl iddynt gael eu rhoi. Mae'r gwaith hwn yn mynd i'r afael â rhai o'r argymhellion yn yr adroddiad. Mae argymhellion eraill i'w hystyried yn nhymor nesaf y Senedd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru)  
[Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales](mailto:Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwn yn parhau i ystyried argymhellion eich adroddiad wrth i ni symud ymlaen â meysydd gwaith perthnasol eraill i wella'r amddiffyniad ar gyfer coed a choetiroedd ledled Cymru.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, consisting of several fluid, overlapping strokes that form a stylized representation of the name 'Huw Irranca-Davies'.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**

Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd  
a Materion Gwledig

Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

## Ymateb Llywodraeth Cymru

### Argymhellion ar drwyddedau cwmpo coed

#### Argymhelliad 1

**Derbyn mewn egwyddor.** Rydym yn cytuno y byddai monitro cwmpo coed yn gywir yn helpu i orfodi cydymffurfiaeth â'r drefn ar gyfer trwyddedau cwmpo coed. Mae defnyddio technoleg synhwyro o bell at y diben hwn yn dal i fod yn faes sy'n datblygu. Byddwn yn annog buddsoddiad parhaus mewn technoleg synhwyro o bell, er enghraifft drwy'r Strategaeth Gwyddoniaeth ac Arloesi sy'n cefnogi ymchwil wyddonol sy'n gysylltiedig â choedwigaeth ym Mhrydain Fawr. Byddwn yn parhau i edrych a oes modd defnyddio technoleg synhwyro o bell newydd a pha mor berthnasol yw i ddeall faint o goed sy'n cael eu cwmpo yng Nghymru.

#### Argymhelliad 2

**Derbyn – eisoes ar waith:** Mae methu â chydymffurfio ag amodau amgylcheddol neu delerau eraill trwyddedau cwmpo coed sydd eisoes wedi'u rhoi yn drosedd o fewn Deddf Coedwigaeth 1967 (Deddf 1967). Os nad yw'n cydymffurfio, byddai deiliad y drwydded cwmpo coed yn gweithredu y tu allan i delerau'r drwydded, sy'n golygu y byddai'r gwaith yn anawdurdodedig, gan y byddai'r drwydded yn annilys yn y bôn. Mae'r drosedd a'r sancsiynau cysylltiedig am fethu â chydymffurfio ag amodau eisoes wedi'u nodi yn Adran 17 o Ddeddf 1967. Fodd bynnag, mae gan CNC fel rheoleiddiwr coedwigoedd bwerau pellach yn Neddf 1967 sy'n osgoi'r angen am erlyn ar unwaith. Mae pwerau ar gael i gyhoeddi hysbysiadau ailstocio neu orfodi o dan adrannau 17A a 17C o Ddeddf 1967 mewn perthynas ag ailstocio, a hysbysiadau gorfodi o dan adrannau 24C a 24D mewn perthynas ag amodau amgylcheddol. Mae gan bob un ohonynt droseddau cysylltiedig am beidio â chydymffurfio â'r hysbysiadau gorfodi hyn. Felly, ni ystyrir bod angen diwygio pellach ar Ddeddf 1967.

#### Argymhelliad 3

**Derbyn mewn egwyddor:** Rydym yn derbyn nad yw Deddf 1967 yn darparu'r pŵer i lysoedd yng Nghymru ddyroddi gorchmynion ailstocio fel rhan o erlyniad. Byddai gorchmynion ailstocio a gyhoeddwyd gan y llysoedd, yn ogystal â dirwy, yn sicrhau bod ailstocio yn digwydd ar safle a gwmpwyd heb drwydded ddilys neu'n arwain at sancsiynau pellach pe bai methiant i gydymffurfio â gorchmynion ailstocio.

Byddai gwelliant i Ddeddf 1967 yn gofyn am welliant yn y ddeddfwriaeth sylfaenol, a byddai angen nodi cyfrwng addas ar gyfer diwygio o'r fath. Bydd hyn yn amodol ar flaenoriaethau gweinidogol yn y dyfodol ar ôl etholiadau'r Senedd yn 2026 ac a oedd amser deddfwriaethol ar gael.

#### Argymhelliad 4

**Derbyn – eisoes ar waith:** Diwygiwyd Deddf 1967 i ganiatáu i CNC ychwanegu amodau amgylcheddol at drwyddedau cwmpo coed. Mae hyn yn caniatáu i amodau pwrpasol gael eu hychwanegu at drwyddedau cwmpo coed, ac nid oes unrhyw rwystr i'r amodau hyn fod yn berthnasol i goetir hynafol. Mae amod amgylcheddol sylfaenol sy'n diogelu pob coeden hynod bellach yn cael ei ychwanegu at yr holl drwyddedau cwmpo coed a roddir. Mae'r amod yn nodi:

**"Coed Hynod:**

*Rhaid i ddeiliad y drwydded nodi, cadw, rheoli ac osgoi difrod i goed hynod presennol.*

*Coeden hynod (Diffiniad) wedi'i gymryd o UKFS:*

*Coeden o oedran sylweddol sydd o ddiddordeb yn fiolegol, diwylliannol, neu esthetig oherwydd ei hoedran, maint neu gyflwr, gan gynnwys presenoldeb micro-gynefinoedd pren marw."*

Gan fod yr amod hwn wedi'i gynnwys ym mhob trwydded cwmpo coed, byddai methu â chydymffurfio â'r amod yn golygu y byddai'r gwaith yn cael ei wneud y tu allan i delerau'r drwydded cwmpo coed a roddwyd h.y. heb awdurdodiad. Byddai'r tramgwydd a'r dirwyon cysylltiedig a nodir yn Adran 17, neu gamau gorfodi amgen fel y nodir yn Adrannau 17A a 17C neu Adrannau 24C a 24D o Ddeddf 1967, yn gymwys. Mae amod "haen 2" dewisol ar gyfer coetir hynafol hefyd ar gael i'w gynnwys mewn trwyddedau cwmpo coed lle bo hynny'n briodol, gan ddarparu amddiffyniad penodol i goetiroedd hynafol o fewn y drefn trwyddedau cwmpo coed.

## **Argymhelliad 5**

**Derbyn – eisoes ar waith:** Mae gan CNC y pŵer eisoes i godi tâl am drwyddedau cwmpo. Diwygiwyd Corff Cyfoeth Naturiol Cymru (Gorchymyn Sefydlu) 2012 gan Orchymyn Cyfoeth Naturiol (Swyddogaethau) 2013, a fewnosododd Erthygl 12A yng ngorchymyn 2012 yn Atodiad 1 paragraff 14. Rhoddodd hyn bŵer i CNC "godi tâl am waith y mae'n ei wneud ac am nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau y mae'n eu darparu;"

## **Argymhelliad 6**

**Derbyn:** Gan fod ganddo y pŵer eisoes i godi tâl, mae CNC yn bwriadu cynnal dadansoddiad o'r goblygiadau ar gyfer cyflwyno tâl am drwyddedau cwmpo coed, yn amodol ar yr adnoddau sydd ar gael. Fel rhan o'r dadansoddiad hwn, bydd asesu'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â chodi tâl am drwyddedau cwmpo coed, megis atal rheoli coetir gweithredol, ochr yn ochr â'r manteision. Bydd unrhyw benderfyniad terfynol i gyflwyno codi tâl am drwyddedau cwmpo i'w hystyried gan Weinidogion yn y dyfodol ac nid cyn etholiadau'r Senedd yn 2026.

## **Argymhelliad 7**

**Derbyn mewn egwyddor:** Mae adran 17 o Ddeddf 1967 yn galluogi'r llysoedd i osod dirwy ddiderfyn pan fo'r cwmpo coed wedi'i wneud heb awdurdod trwydded. Rydym yn cydnabod y gall baich yr adnoddau sydd eu hangen i ddod ag achos i'r llys gyfyngu rhywun, ac y gallai sancsiynau sifil fod yn ddull atal a gorfodi mwy effeithlon, cost-effeithiol. Rydym yn derbyn mewn egwyddor edrych ar sancsiynau sifil yn amodol ar flaenoriaethau Gweinidogol ar ôl etholiadau'r Senedd 2026 ac os oes amser deddfwriaethol ar gael.

## **Argymhelliad 8**

**Derbyn mewn egwyddor:** Ymdriniwyd â hyn yn rhannol gan ddiwygiadau i Ddeddf 1967 a gyflwynwyd drwy Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Gall y llysoedd godi dirwyon diderfyn nawr am gwmpo coed yn anghyfreithlon trwy Adran 17 o Ddeddf 1967. Gall y dirwyon hyn eisoes adlewyrchu nifer y coed a gwmpwyd heb awdurdodiad. Pe bai cosbau yn cael eu cyflwyno i goed unigol a dorwyd heb awdurdodiad fel coed unigol y tu allan i goetir, byddai gwrthdaro posibl â'r eithriadau presennol rhag trwyddedau cwmpo o dan Ddeddf 1967. Byddwn yn edrych ar oblygiadau cyflwyno cosb o'r fath a allai gynnwys diwygio deddfwriaethol. Bydd hyn yn amodol ar flaenoriaethau Gweinidogol ar ôl etholiadau'r Senedd 2026 ac a oes amser deddfwriaethol.

Fel y mae'r adroddiad yn cydnabod yn t.52, gall dirwyon a roddwyd gan y llysoedd gael eu lleihau'n sylweddol mewn apêl. Fel rhan o'n Strategaeth Bywyd Gwyllt a Throseddau Gwledig, rydym yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o werth cynefinoedd a choed, ac effaith troseddau arnynt. Y gobaith yw y bydd y ddealltwriaeth well hon yn arwain at roi dirwyon priodol a'u cynnal trwy'r llysoedd apêl.

## **Argymhellion ar Orchmynion Cadw Coed (TPOs)**

### **Argymhelliad 9**

**Derbyn:** Bydd y Bil Cynllunio (Cymru) a'r Rheoliadau Cynllunio (Cymru) (Cadwraeth Coed) arfaethedig (y rheoliadau newydd) yn cyflwyno newidiadau i'r fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu gwarchod coed yng Nghymru. Nod y newidiadau hyn yw symleiddio gweithdrefnau tra'n sicrhau diogelwch cadarn ar gyfer coed a choetiroedd o werth amwynder.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau diwygiedig (diweddarau TAN 10 a'r canllaw Coed Gwarchodedig) i gyd-fynd â'r rheoliadau newydd. Bydd y canllawiau wedi'u diweddarau yn cyd-fynd ag amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru o dan Bolisi Cynllunio Cymru, gan gynnwys yr ymagwedd fesul cam at fioamrywiaeth ac integreiddio seilwaith gwyrdd i wneud lleoedd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid, awdurdodau cynllunio lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, a chyrrff proffesiynol, i sicrhau bod y dogfennau diwygiedig yn glir, yn ymarferol ac yn hygyrch.

### **Argymhelliad 10**

**Derbyn mewn egwyddor:** Er bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r egwyddor o gryfhau capasiti lleol i warchod coed, mae unrhyw benderfyniad i orfodi penodi Swyddogion Coed pwrpasol yn fater i'r awdurdodau cynllunio.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall cael arbenigedd arbenigol o fewn awdurdodau cynllunio wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r ffordd y caiff amddiffyniadau coed eu cymhwyso a'u gorfodi. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau cynllunio i edrych ar gryfhau capasiti, boed hynny trwy wasanaethau a rennir, hyfforddiant, neu integreiddio arbenigedd coed sydd ar gael yn well o fewn strwythurau awdurdodau lleol presennol.

### **Argymhelliad 11**

**Derbyn mewn egwyddor:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r argymhelliad y dylai pob awdurdod lleol yng Nghymru gael mynediad at arbenigedd coedyddiaeth arbenigol, a rydym yn cefnogi yr egwyddor y tu ôl iddo yn llwyr. Mae coed yn rhan hanfodol o'n hamgylchedd naturiol ac adeiledig, ac mae eu diogelu a'u rheoli yn gofyn am wybodaeth arbenigol. Gall mynediad at arbenigedd coedwigaeth wella ansawdd a chysondeb penderfyniadau mewn Gorchmynion Diogelu Coed, cynigion datblygu, a chynllunio seilwaith gwyrdd ehangach yn sylweddol.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r awgrym o gydweithio a chyfuno adnoddau fel ffordd ymlaen ymarferol sy'n cyflawni llawer. Gall gwasanaethau a rennir, gweithio rhanbarthol, a phartneriaethau cyd-awdurdod helpu i sicrhau bod arbenigedd coedyddiaeth ar gael lle mae ei angen. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau cynllunio, cyrrff proffesiynol, a rhanddeiliaid eraill i edrych sut y gellid cyflwyno modelau cydweithredol o'r fath.

## Argymhelliad 12

**Derbyn mewn egwyddor:** Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen plattform mapio digidol hygyrch i'r cyhoedd i ddangos pa goed sy'n cael eu gwarchod o dan Orchmynion Gwarchod Coed; mae'n cyd-fynd â'n hymrwymiad i dryloywder, ymgysylltu â'r gymuned, a darparu data amgylcheddol o ansawdd.

Mae adroddiad IEPAW yn nodi bod rhai awdurdodau lleol eisoes yn darparu mapiau ar-lein o Orchmynion Diogelu Coed, ac mae Llywodraeth Cymru yn deall gwerth adeiladu ar yr arfer da hwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni hefyd gydnabod yr heriau ariannol a thechnegol o ddarparu adnodd digidol cenedlaethol yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Byddai datblygu a chynnal haen ddata o'r fath yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol, cydlynu ar draws yr holl awdurdodau cynllunio lleol, ac integreiddio â Map Data Cymru.

Er gwaethaf hyn, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i archwilio dulliau cydweithredol, gan weithio gydag awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, a phartneriaid eraill i asesu sut y gellir rhannu adnoddau a data presennol yn well ac a allai dull graddol neu ranbarthol fod yn ymarferol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ymhellach sut y gallai'r cynnig hwn gyd-fynd â gwaith trawsnewid digidol ehangach mewn gwasanaethau cynllunio.

## Argymhelliad 13

**Derbyn – eisoes ar waith:** Mae'r fframwaith cyfreithiol presennol yn ei gwneud yn drosedd i wneud gwaith ar goeden warchodedig heb ganiatâd yr awdurdod cynllunio lleol. Mae canllawiau ar gael i helpu contractwyr a thirfeddianwyr i ddeall eu cyfrifoldebau, ac mae pwerau gorfodi yn bodoli i fynd i'r afael â thorri amodau. Er bod gwella ymwybyddiaeth a chydymffurfiaeth â'r gyfundrefn Gorchymyn Gwarchod Coed yn hanfodol, nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu deddfu ymhellach ar y mater hwn ar hyn o bryd. Yn hytrach, byddwn yn canolbwyntio ar gryfhau canllawiau presennol, gwella mynediad at wybodaeth a gweithio gydag awdurdodau lleol a chyrrff diwydiant i hyrwyddo arfer gorau.

Mae'r broses ymgeisio am drwydded Cwmpo Coed a weinyddir gan CNC yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ddatgan presenoldeb Gorchmynion Diogelu Coed. Mae hyn yn gweithredu fel awgrym i wirio am bresenoldeb Gorchymyn Diogelu Coed yn gynnar ac yn darparu'r potensial ar gyfer erlyniad os gwneir datganiad ffug.

## Argymhelliad 14

**Gwrthod:** Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cryfhau amddiffyniadau trwy ddiweddarau polisïau a deddfwriaeth ar gyfer coed a choetiroedd, gan gydnabod bod coed hynafol a hynod yn gynefinoedd unigryw. Nod y Bil Cynllunio (Cymru) a rheoliadau newydd arfaethedig sy'n ymwneud â Gorchmynion Diogelu Coed yw gwella cysondeb ac eglurder yn y ffordd y caiff coed eu gwarchod ledled Cymru. Mae'r dull hwn yn dileu yr angen am waith ymchwil ar fathau eraill o warchod. Bydd y gwaith sydd ar ddod ar ganllawiau pellach i gefnogi'r rheoliadau newydd a diweddarau TAN 10 ar Goed ailddatgan pwysigrwydd coed hynafol, hynod a choed treftadaeth. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ystyried ochr yn ochr ag ymdrechion ehangach i gryfhau amddiffyniadau ar gyfer coetiroedd a choed hynafol, fel yr amlinellir yn Natganiad Ysgrifenedig diweddar Llywodraeth Cymru ar Ddiogelu Coetiroedd Hynafol. Mae'r dull polisi a deddfwriaeth hwn yn cael ei ystyried yn fwy effeithiol a chymesur o ystyried y baich ariannol debygol i awdurdodau lleol o osod Gorchmynion Diogelu Coed ar bob coeden o fewn y Rhestr Coed Hynafol o fewn yr hinsawdd economaidd presennol.

## Argymhelliad 15

**Derbyn – eisoes ar waith** Mae'r fframwaith presennol ar gyfer gwarchod coed yng Nghymru eisoes yn caniatáu i awdurdodau cynllunio lleol ddiogelu coed sy'n cyfrannu'n ystyrllon at amwynder lleol. Gall hyn gynnwys coed sy'n cael eu hystyried fel rhai â phwysigrwydd lleol arbennig. Yn ogystal, mae Polisi Cynllunio Cymru yn darparu canllawiau ar sut y dylid ystyried coed mewn penderfyniadau cynllunio, gan gynnwys coed sydd â gwerth bioamrywiaeth neu dreftadaeth.

## **Argymhellion ar Gynllunio**

### **Argymhelliad 16**

**Derbyn:** Bydd Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y Safon Brydeinig ar Goed yn y diweddariad nesaf i Bolisi Cynllunio Cymru.

### **Argymhelliad 17**

**Derbyn:** Mae Polisi Cynllunio Cymru yn annog awdurdodau lleol i ystyried effaith datblygiad ar goed a choetiroedd, yn enwedig y rhai sy'n cael eu gwarchod gan Orchmynion Gwarchod Coed neu sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd cadwraeth. Mae polisi cynllunio yn cefnogi integreiddio cyngor gan arbenigwyr cymwys addas o fewn penderfyniadau cynllunio.

Mewn diweddariad i Bolisi Cynllunio Cymru yn y dyfodol, bydd Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at bwysigrwydd cael barn goedyddiaeth ar unrhyw gais sydd ag effaith sylweddol ar goed.

### **Argymhelliad 18**

**Derbyn:** Mae pwysigrwydd diogelu coed yn ystod y datblygiad yn cael ei gydnabod ym Mholisi Cynllunio Cymru sy'n nodi polisïau ar gyfer diogelu coed presennol drwy'r broses gynllunio. Mae'r Safon Brydeinig BS5837:2012 – Coed mewn Perthynas â Dylunio, Dymchwel ac Adeiladu yn darparu canllawiau manwl ar sut y dylid nodi parthau diogelu gwreiddiau a'u parchu drwy gydol y camau dylunio ac adeiladu.

Drwy fynd i'r afael ag argymhelliad 16 uchod, gall Llywodraeth Cymru gyfeirio'r canllawiau yn y Safon Brydeinig ar barthau diogelu gwreiddiau. Ar ben hynny, gall y canllawiau wedi'u diweddarau ar goed dynnu sylw at gyngor technegol penodol ar amddiffyn gwreiddiau o'r Safon Brydeinig.

### **Argymhelliad 19**

**Derbyn – eisoes ar waith:** Mae coed yn rhan hanfodol o'n hamgylchedd naturiol ac adeiledig, ac mae eu gwarchod wedi'i ymgorffori ym Mholisi Cynllunio Cymru, sy'n nodi bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio gadw coed presennol lle bynnag y bo modd ac ystyried eu gwerth o ran bioamrywiaeth, amwynder, a gwytnwch hinsawdd. Yn dilyn diweddarau a chryfhau polisïau diogelu coed ym Mholisi Cynllunio Cymru, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn annog awdurdodau lleol i gryfhau eu CDLI drwy nodi'r meini prawf y maent yn eu defnyddio i asesu cynigion a allai effeithio ar goed, gan gynnwys sut mae cyngor arbenigol, effaith amgylcheddol, a mesurau osgoi, lleihau a lliniaru yn cael eu hystyried.

### **Argymhelliad 20**

**Derbyn mewn egwyddor:** O fewn y system gynllunio, mae gan awdurdodau lleol bwerau i osod amodau ar gynigion datblygu sy'n ymwneud â thynnu coed, gan gynnwys gofynion ar gyfer plannu newydd a diogelu coed a gedwir. Cyfrifoldeb yr awdurdod cynllunio yw monitro cydymffurfiaeth â'r amodau hyn a nodi achosion o dorri amodau.

## Argymhelliad 21

**Derbyn – eisoes ar waith:** Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi dull fesul cam o ddiogelu coed, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr osgoi colli coed presennol a'u hintegreiddio i ddyluniad safleoedd o'r cychwyn cyntaf. Mae hyn yn cyd-fynd â pholisïau ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer creu lleoedd, gwella bioamrywiaeth, a gwytnwch o ran yr hinsawdd.